# Tŵr Babel



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn y wers yma, byddwn yn dysgu am dŵr Babel o Genesis 11:1-9. Ar ôl Noa a'r llif, tyfodd rhif y bobl oedd ar y ddaear. Roeddynt i fod i lenwi'r ddaear fel y gorchmynnodd Duw, ond yn lle hynny arhoson nhw yn yr un ardal. Un diwrnod penderfynon nhw adeiladu tŵr. Mae'r darn yma yn ein rhybuddio rhag gadael Duw allan o'n cynlluniau.

Video playlist

Pwyntiau allweddol:-

- Dylwn ddilyn cynlluniau Duw ac nid rhai ni'n hunain.
- Mae gwahaniaeth rhwng balchder da a balchder drwg.
- Dechreuad ieithoedd.









## Canllaw'r Wers

Cyn dechrau'r wers wythnos yma, gadewch i'ch plentyn chwarae gyda rhai blociau adeiladu. Efallai cael cystadleuaeth i weld pwy sy'n medru adeiladu'r tŵr mwyaf cyn iddo gwympo drosodd. Efallai hoffech chwarae rownd neu ddwy o 'Jenga'.

Pan rydych wedi gorffen chwarae, cyflwynwch wers wythnos yma. " Heddiw rydym yn mynd i ddarllen am yr amser penderfynodd rhai pobl adeiladu'r tŵr mwyaf adeiladwyd erioed."

Gofynnwch i'ch plentyn beth maen nhw'n cofio am Noa. Bydd hyn yn rhoi'r cefndir i'r wers wythnos yma wrth atgyfnerthu'r pethau dysgwyd yn barod.

Darllenwch Genesis 11:1—9 o Feibl eich plentyn.

Gofynnwch i'ch plentyn beth yw ystyr y gair 'balchder'? eglurwch y gwahaniaeth rhwng balchder da a balchder drwg.

Balchder da ydy pryd rydych yn teimlo'n dda amdanoch eich hun oherwydd eich bod wedi gwneud rhywbeth ardderchog, wedi gwneud creu rhywbeth da, wedi helpu rhywun….Mae Duw yn hoffi i ni deimlo'r math yma o falchder. Mae'n debyg i'r ffordd dywedodd Duw, "mae hyn yn dda.." ar ôl creu'r byd.

Balchder drwg ydy pan rydych yn meddwl GORMOD amdanoch chi eich hun. Efallai eich bod yn meddwl bod chi'n well nag ydych chi, ac yn edrych i lawr ar fobl eraill ac yn meddwl eich bod yn well na nhw.

Gofynnwch i'ch plentyn beth wnaeth Duw oherwydd eich balchder.

Gallwch wedyn gofyn i'ch plentyn os ydynt yn gwybod ieithoedd eraill. Efallai eich bod yn siarad mwy nag un iaith gartref, neu yn cael ffrindiau sy'n siarad iaith wahanol.

Meddyliwch am y llesteiriant mae eich plentyn yn teimlo pan nad oes unrhyw un yn ei ddeall. Myfyriwch ar sut oedd y bobl yn siŵr o fod yn teimlo pan nad oeddynt yn medru deall ei gilydd.

I ddiweddu eglurwch eto sut mae balchder drwg yn niweidiol. Dysgwch Ddiarhebion 16:18 "Mae balchder yn dod o flaen dinistr, a brolio cyn baglu."

© 2021 truewaykids.com




Stopiodd y bobl weithio gyda'i gilydd.

Achubodd Duw nhw o'u calonnau balch.

Dechreuodd y bobl ufuddhau I Dduw a lledaenu ar draws y byd.

Dysgon nhw mai Duw yw'r mwyaf rhyfeddol.





# Tŵr Babel

Doedd y bobl ar ôl Noa ddim yn gwrando ar Dduw.

Daeth y bobl yn falch.

Roeddynt eisiau bod yn enwog.

Roeddynt yn cynllunio i adeiladu  tŵr mawr fel byddai pawb yn gwybod eu bod yn rhyfeddol.



Gweithion nhw'n galed.

Bric ar ôl bric, tyfodd y tŵr yn uwch ac yn uwch.

Roeddynt yn hapus iawn gyda'u gwaith.

Ond poenodd Duw am eu balchder.





Cymysgodd Duw eu hiaith fel nad oeddynt yn medru deall ei gilydd.

Roedd yn ymddangos fel petai nhw'n clebran.

Ni allent weithio gyda'i gilydd.

Roedd hyn yn ddechrau'r ieithoedd.

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Pentyrru cwpanau

Gallwch bentyrru'r cwpanau mewn pyramidiau o bob maint a siâp neu eu trefnu fel waliau
a thyrrau.
Rydych dim ond yn gyfunedig gyda'r nifer o gwpanau sydd gennych. Yn ffodus, mae cwpanau tafladwy yn rhad (ac fel arfer mae'n bosib eu hailgylchu.)
Hefyd, gall y plant ymarfer mathemateg os ydynt yn cyfri eu pentyrrau neu yn creu patrymau gyda chwpanau o wahanol liw.





## Tyrrau Crempog

Coginiwch grempog fach ( neu prynwch grempog barod)

Torrwch ddarnau o ffrwyth (banana, mefus, a.y.y.b.)

Pentyrrwch nhw fel brechdanau i weld pwy all wneud y tŵr talaf.

## Blociau adeiladu

Dim rhaid paratoi unrhyw beth a fyddent yn siŵr o ddiddori'r plant am oriau.


Gadewch i'ch plentyn chwarae gyda'u hoff blociau adeiladu ac adeiladu unrhyw beth o'u dychymyg.



© 2021 truewaykids.com

# Taflenni Gwaith

Cymysgodd Duw geiriau'r bobl oedd yn adeiladu tŵr Babel fel nad oeddent yn deall ei gilydd.  Torrwch allan ac aildrefnwch y llythrennau i wneud y geiriau.




t ŵ r



d a



dr wg



br ic

© 2021 truewaykids.com

# Blociau tŵr


Torrwch allan y blociau a'u haildrefnu mewn trefn eu maint.

| | |
|---|---|
| 5 | 6 |
| 4 | 7 |
| 3 | 8 |
| 2 | 9 |
| 1 | 10 |

© 2021 truewaykids.com

# Siâp jigso


Torrwch allan y sgwariau a'u rhoi yn ôl at ei gilydd i wneud 4 siâp.




© 2021 truewaykids.com

# Siâp tŵr

Torrwch allan y siapiau a gludwch nhw yn eu lle i orffen y tŵr.






© 2021 truewaykids.com

# Lliwio a chyfri


Sawl petryal sydd yn y llun isod?



# Tŵr Stamp Bric

## Byddwch eisiau:

- Darn mawr o bapur (A3)
- Paent lliw
- Rwber siâp petryal
- Pen marcio
- Tudalen templed
- Siswrn
- Glud







## Beth i wneud:

Rhowch baent o wahanol liw ar blât.

Defnyddiwch y rwber fel stamp. Gwasgwch i mewn i'r paent ac wedyn ar y papur i wneud effaith bric.

Parhewch i ben y papur i wneud tŵr.


Gadewch i sychu.


Defnyddiwch ben marcio tew i amlinellu'r tŵr a'i arweddion.


Gludwch ddrysau a ffenestri arno.


© 2019 truewaykids.com


# Templed crefft
















© 2019 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com

# Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## The B-I-B-L-E

https://youtu.be/ahHWtv0mt2E

## My God is so big and so strong

https://youtu.be/YUageJdwyPY

## Trust and Obey

https://youtu.be/0SWoGIWcvN4



# Amser gweddi

Dysgwch sut i ddweud 'Diolch' mewn iaith arall.

Dywedwch "Obrigado / Danke / Gracias / Merci ...... defnyddiwch y gair newydd i ddiolch i Dduw am yr holl bethau mae'n bendithio ni gyda (e.e. Gracias Dduw am .........)

# Wythnos nesaf

Abraham - Genesis 22

Os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, ymunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol gydag e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2019 truewaykids.com